# Cofnodion cyfarfod Grŵp Cyswllt Cymunedol Esgair Galed

## Dydd Mercher 22 Hydref 2025

### Presenoldeb

**Yn bresennol**

Maya Bimson (MB) – Amddiffyn Glaslyn a Hafren

Paul Buckley (PB) – Cymdeithas Clywedog

Bryn Jones (BJ) – Cyngor Cymuned Llanbrynmair

Endaf Meddins (EM) – Perchennog tir Esgair Galed

Y Cynghorydd Gary Mitchell (GM) – Cyngor Sir Powys

Derrick Pugh (DP) – Cyngor Cymuned Trefeglwys

James Green (JG) – Arweinydd Mapio Cymdeithasol, Monitro, Gwerthuso a Dysgu - Tîm Buddsoddi Cymunedol, Bute Energy

Huw Rees (HR) – Rheolwr Prosiect Parc Ynni Esgair Galed, Bute Energy

Sara Powell-Davies (SPD) – Thirty4/7 Communications (drwy Teams)

**Yn absennol *(sylwch fod sefydliadau wedi cael cais i anfon dim ond un cynrychiolydd i bob cyfarfod)***

Y Cynghorydd Elwyn Vaughan – Cyngor Sir Powys (wedi anfon ymddiheuriadau)

Y Cynghorydd Glyn Preston – Cyngor Sir Powys

Edward Pugh – Cyngor Cymuned Trefeglwys

Elen Williams – Cyngor Cymuned Cadfarch Community Council / CFfI Bro Dyfi / Maldwyn

Richard Ashton – Cyngor Cymuned Llanbrynmair

Carla Evans – Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn

Sali-Ann Preston – Amddiffyn Glaslyn a Hafren

Barbara Richter – Cydweithfa Gymunedol Llwyngog

Bute Energy Cymuned

## Trosolwg o’r Agenda

1. Gair o groeso a chyflwyniadau
2. Ymddiheuriadau
3. Materion yn codi o’r cyfarfod diwethaf
4. Adolygu a chymeradwyo Telerau Cyfeirio wedi'i ddiweddaru
5. Adolygu aelodaeth y grŵp
6. Diweddariad ar Brosiect Esgair Galed
7. Cyflwyniad i broses mapio cymdeithasol Bute Energy
8. Cyfleoedd i wirfoddoli
9. Unrhyw fater arall
10. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

## Trafodaethau a Nodiadau

**Gair o groeso a chyflwyniadau**

***Cyflwynodd pob aelod a oedd yn bresennol eu hunain a pha sefydliad, os o gwbl, roeddent yn ei gynrychioli.***

- Yn ogystal â'r aelodau arferol, roedd James Green, Arweinydd Mapio Cymdeithasol, Monitro, Gwerthuso a Dysgu yn Bute Energy, yn bresennol i egluro sut mae'r Tîm Buddsoddi Cymunedol yn casglu gwybodaeth am yr ardal leol i geisio helpu i lywio sut byddai modd defnyddio'r Gronfa Budd Cymunedol. Bydd mewnbwn gan bobl leol yn parhau i fod yn rhan allweddol o'r broses hon.
- Hwn yw'r cyfarfod cyntaf lle mae cynrychiolydd o Gymdeithas Clywedog yn bresennol.

**Materion yn codi o’r cyfarfod diwethaf**

***Trafodwyd unrhyw faterion neu gamau gweithredu a oedd heb eu datrys o'r cyfarfod diwethaf.***

- Mynegodd DP bryderon am densiynau gwleidyddol lleol ac ailadroddodd fod Cyngor Cymuned Trefeglwys yn ddiduedd.
- Atgoffodd HR bawb fod cofnodion yr holl gyfarfodydd hyn ar gael ar wefan Esgair Galed yma. Bydd y cofnodion yn cael eu rhannu ag aelodau o'r Grŵp Cyswllt Cymunedol er mwyn cael sylwadau arnynt cyn eu rhoi ar y wefan.
- Bydd manylion yr holl sefydliadau a wahoddwyd yn cael eu cynnwys yn yr holl gofnodion yn y dyfodol.

- Cyfeiriodd DP at gyfarfodydd lleol eraill sydd wedi cael eu cynnal yn 2024 a 2025 i drafod sut gallai'r cynigion ar gyfer Esgair Galed effeithio ar ardaloedd lleol. Trefnwyd y rhain gan Amddiffyn Glaslyn a Hafren.
- Dewiswyd cynrychiolydd ar gyfer busnesau twristiaeth lleol i ddod i'r cyfarfod hwn, ond gan na chafodd gwahoddiad ei anfon yn dilyn y cyfarfod diwethaf, nid oeddent yn teimlo bod ganddynt hawl i fod yn bresennol. HR i sicrhau bod y cam hwn yn cael ei gwblhau mewn pryd er mwyn i'r cynrychiolydd allu bod yn bresennol yn y cyfarfod nesaf.
- Gofynnodd PB gwestiwn am gofnodion y cyfarfod blaenorol ynghylch yr Asesiad o Amwynderau Gweledol Preswyl ar gyfer eiddo o fewn radiws o 2km.
- Esboniodd HR y broses y mae'r tîm Tirwedd arbenigol wedi'i dilyn.
    - Cafodd tua 100 eiddo eu nodi o fewn radiws o 2km i'r safle. Asesodd yr arbenigwr Tirwedd yr eiddo hyn fel clystyrau o leoliadau sy'n hygyrch i'r cyhoedd, i nodi eiddo a allai dorri'r Trothwy Amwynder Gweledol Preswyl.
    - Nododd y tîm 20 eiddo a oedd yn bodloni'r meini prawf hwn a chafwyd eu symud ymlaen i ail gam yr asesiad, a oedd yn cynnwys ymweliad personol lle roedd angen ymchwilio ymhellach iddynt er mwyn ystyried olygfannau penodol. O'r 20 eiddo y cysylltwyd â nhw, derbyniodd 17 a chynhaliwyd yr asesiad ar yr eiddo hynny. Eglurodd HR fod asesiadau dim ond yn cael eu cynnal ar eiddo y credir bod ganddynt y potensial i fod yn 'torri Trothwy' yr asesiad Amwynder Gweledol Preswyl ac eglurodd nad yw'n debygol y cysylltir ag eiddo eraill.
- Cododd DP y mater a fyddai modd 'digolledu' pobl am fod yn agos i'r fferm wynt.
- Rhoddodd JG fanylion byr ynghylch sut y rhagwelir y byddai'r Gronfa Budd Cymunedol yn cael ei gweinyddu drwy un Sefydliad Corfforedig Elusennol wedi'i lywodraethu gan fwrdd ymddiriedolwyr. Byddai paneli lleol yn gwneud argymhellion ynghylch lle byddai cyllid yn cael ei ddyfarnu. JG i edrych ar wahanol ffyrdd y byddai modd defnyddio'r cyllid i helpu'r bobl sydd agosaf at y prosiect.
- Bydd dau ddeg pump y cant o'r Gronfa Budd Cymunedol flynyddol yn cael ei dargedu at sefydlu cynlluniau ynni cymunedol. Gallai hyn gynnwys effeithlonrwydd ynni neu gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar raddfa fach i breswylwyr.
- Trafodwyd iawndal i fusnesau y gallai'r prosiect effeithio arnynt. HR i edrych ar iawndal penodol i fusnesau sy'n colli enillion.
- Trafodwyd y llwybr mynediad, ac roedd BJ yn cwestiynu'r posibilrwydd o wella'r rhwydwaith ffyrdd lleol. Cadarnhaodd HR nad yw'r llwybr trafnidiaeth wedi'i benderfynu eto, ond mae'n gyffredin i waith ehangu a gwella gael ei wneud ar lwybrau trafnidiaeth ffermydd gwynt.
- Gofynnodd PB a fyddai modd gwneud trefniadau i breswylwyr ddefnyddio unrhyw ynni dros ben a gynhyrchir gan y parc ynni nad yw'r grid yn gallu ei dderbyn (cwtogiad y grid). Dywedodd HR na fyddai hyn yn bosib oherwydd cymhlethdodau gyda'r grid.
- Cadarnhaodd HR nad yw storfa fatri wedi'i chynnwys fel rhan o brosiect Parc Ynni Esgair Galed.

**Camau Gweithredu**

- HR i gysylltu â'r cynrychiolydd busnesau twristiaeth lleol
  Terfyn amser – 5 Tachwedd 2025
- JG i ymchwilio i ffyrdd y byddai modd defnyddio'r Gronfa Budd Cymunedol ar gyfer pobl leol
  Terfyn amser – 11 Chwefror 2026
- HR i ymchwilio i iawndal i fusnesau sy'n colli enillion.
  Terfyn amser – 11 Chwefror 2026

**Adolygu'r Telerau Cyfeirio**

***Trosolwg o'r Telerau Cyfeirio wedi'i ddiweddaru***

- Dyletswyddau cadeirio i'w cyflawni ar y cyd rhwng HR a T47
- Yr adrannau mewn melyn yn y Telerau Cyfeirio yw'r eitemau sydd wedi'u diweddaru
    - Mae'r amserlen ar gyfer rhannu a chyhoeddi cofnodion wedi newid
    - Mae cynnwys aelodau'r grŵp wedi cael ei ychwanegu
- Cymeradwywyd y Telerau Cyfeirio gan y grŵp, a bydd y fersiwn wedi'i diweddaru yn cael ei llwytho i fyny i'r wefan.

**Camau Gweithredu**

- HR i sicrhau bod y Telerau Cyfeirio wedi'i ddiweddaru yn cael ei lwytho i fyny i adran y Grŵp Cyswllt Cymunedol ar wefan y prosiect. Terfyn amser: 19 Tachwedd 2025

**Aelodaeth y grŵp**

***Trafodaeth am aelodaeth y grŵp***

- HR – dal angen cadw nifer y sefydliadau sy'n cael eu cynrychioli i nifer ymarferol
- Manylion cyswllt unrhyw ddarpar fynychwyr i gael eu trosglwyddo i HR neu T47 i sicrhau bod Bute Energy yn gallu rhannu gwybodaeth a manylion cyfarfodydd yn brydlon

**Camau Gweithredu**

- PAWB i rannu manylion mynychwyr posib ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol ag HR neu T47

  Terfyn amser – 28 Tachwedd 2025

**Diweddariad ar y Prosiect**

***Rhoddodd HR ddiweddariad ar yr hyn sydd wedi digwydd gyda Pharc Ynni Esgair Galed ers y cyfarfod diwethaf***

- Mae gwaith yn mynd rhagddo ar leoli tyrbinau, a sut mae cael cydrannau i'r safle. Fodd bynnag, mae hyn yn cymryd ychydig yn hirach na'r disgwyl, felly bydd yn cael ei gwblhau yn ystod y ddau fis nesaf.
- Y cam nesaf ar ôl cwblhau hyn fydd dechrau ysgrifennu Datganiad Amgylcheddol – adroddiad cynhwysfawr sy'n rhoi manylion effeithiau sylweddol tebygol y prosiect ar yr amgylchedd. Prif bwrpas y Datganiad Amgylcheddol yw nodi'r effeithiau posib ar yr amgylchedd ac ar gymunedau, ac amlinellu mesurau lliniaru i leihau neu ddileu effeithiau niweidiol. Mae'n ddogfen hollbwysig i PCAC (Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru), a fydd yn gwneud yr argymhelliad i Weinidogion Cymru ynghylch a ddylid rhoi cydsyniad ai peidio, i asesu effeithiau'r prosiect ac i sicrhau bod modd cydbwyso'r datblygiad â diogelu'r amgylchedd. Bydd ar gael i bawb ei weld yn y rownd ymgynghori nesaf a therfynol.
- Bydd yr ymgynghoriad nesaf yn cael ei gynnal ddiwedd gwanwyn / dechrau haf 2026 a bydd yn cynnwys digwyddiadau cyhoeddus i bobl allu gweld rhagor o fanylion, a bydd aelodau arbenigol o'r tîm ar gael i ateb cwestiynau.
- Rhaid i ymgyngoreion statudol ddarparu adborth ar gyfer yr ymgynghoriad hwn.
- Potensial i ddyluniad y parc ynni newid yn dilyn y rownd ymgynghori yma.
- Gwneir cais i PCAC pan fydd yr ymgynghoriad wedi'i gwblhau, yr adborth wedi'i adolygu a'i ystyried, ac adroddiadau perthnasol wedi'u hysgrifennu. Mae hyn yn debygol fod tua diwedd 2026.
- Mynegodd EM bryder ynghylch mwyngloddiau plwm yn yr ardal a sut y gallent effeithio ar ansawdd dŵr.
- Cadarnhaodd HR fod Bute mewn cysylltiad â Cadw a Heneb: Ymddiriedolaeth Archaeoleg Cymru, ynghylch henebion rhestredig, sy'n cynnwys mwyngloddiau plwm.
- Cafwyd trafodaeth am brosiect dan arweiniad yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio ar y cyd â Cyfoeth Naturiol Cymru i wella ansawdd dŵr mewn ardaloedd â mwyngloddiau plwm. Cadarnhaodd HR fod Bute yn ymwybodol a bydd y gwaith hwn yn helpu i lunio pennod hydroleg y Datganiad Amgylcheddol.
- Bydd manylion y llwybr danfon a mynediad i'r safle yn cael eu cynnwys yn y dogfennau ymgynghori.
- Cadarnhaodd HR fod cytundeb wedi'i daro â Cyfoeth Naturiol Cymru i gynnal gwaith tirfesur yn ardal goedwigaeth y prosiect.
- Rhoddodd GM fanylion cynnig Cyngor Powys i oedi ceisiadau am ffermydd gwynt nes y gellir cadarnhau ceisiadau grid ar eu cyfer. Eglurodd HR fod y datrysiad grid yn dibynnu ar brosiect i Green GEN Cymru ei ddatblygu i gysylltu ag is-orsaf yng Nghefn Coch. Bute yn gweithio gyda Green GEN Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am gynlluniau Esgair Galed. Mae'n annhebygol y bydd Green GEN Cymru yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar hyn o bryd.

- Cadarnhaodd HR nad yw golau isgoch ar fast meteorolegol yn weladwy i bobl ond ei fod yn weladwy i awyrennau.

**Camau Gweithredu**

- Dim camau gweithredu wedi'u nodi

**Proses mapio cymdeithasol Bute Energy**

***Rhoddodd JG drosolwg o sut bydd Bute yn gweithio gyda chymunedau i nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer Cyllid Budd Cymunedol.***

- Mae pob parc ynni Bute yn cynnig £7.5k y MW o gapasiti cynhyrchu gosodedig fel Budd Cymunedol. Mae hyn yn gysylltiedig â mynegai ar gyfer oes weithredol y prosiect ac ar gyfer Parc Ynni Esgair Galed, yn seiliedig ar ddyluniadau cyfredol y cynllun 26 tyrbin, mae hyn yn cyfateb i tua £1.2 miliwn y flwyddyn.
- Yn ogystal â'r Gronfa Budd Cymunedol, rhaid i bob cwmni sy'n cael ei gontractio gan Bute sicrhau bod 2% o werth eu contract wedi'i neilltuo i ymrwymiadau gwerth cymdeithasol. Mae cyllideb cyn cydsyniad o £20,000 hefyd. Y bwriad yw y bydd y cyllid hwn yn helpu i gefnogi grwpiau lleol, prosiectau presennol a darparu atebion arloesol i fynd i'r afael â heriau lleol sy'n seiliedig ar leoedd.
- Rhoddodd JG enghraifft o sut mae'r ymrwymiadau gwerth cymdeithasol gan gontractwyr Bute wedi cael eu defnyddio ar brosiect parc ynni arall, ac awgrymodd ffordd o weithio y gellid ei hystyried hefyd ar gyfer sefydliadau sy'n lleol i Esgair Galed.
    - Mae ymgynghorwyr Parc Ynni Llyn Lort wedi cefnogi prosiect dan arweiniad Drenewydd Actif, a oedd yn dymuno uwchraddio ac ehangu ased hamdden. Helpodd ymgynghorwyr sy'n gweithio ym Mharc Ynni Llyn Lort i gwblhau astudiaeth ddichonoldeb gwerth £12,000, a oedd wedyn yn galluogi'r prosiect i wneud cais am becynnau buddsoddi mwy gan gyllidwyr eraill.
- Mae modelau arferion gorau ar gyfer dosbarthu grantiau hefyd yn cael eu hystyried i'w defnyddio a'u haddasu ar gyfer parciau ynni Bute. Y nod yw codi ymwybyddiaeth o grantiau etifeddol dros nifer o flynyddoedd a all helpu i sicrhau bod modd cynnal prosiectau a chynlluniau dros amser. Bydd gwerthusiad hefyd yn cael ei wneud i sicrhau bod cyllid yn gallu bod yn hyblyg er mwyn caniatáu ar gyfer newidiadau a dysgu ar hyd y ffordd.
- Mae gan Bute Dîm Buddsoddi Cymunedol sy'n cynnwys pum person, pob un yn canolbwyntio ar thema wahanol:
    - Symudedd Cymdeithasol
    - Addysg
    - Costau Byw
    - Hamdden ac iechyd
    - Yr amgylchedd a diwylliant
- Mae'r tîm yn mynychu ymgyngoriadau, yn cwrdd â grwpiau lleol ac arweinwyr cymunedol i ddeall heriau a blaenoriaethau ar draws y cymunedau sydd agosaf i bob un o'r parciau ynni. Mae'r gwaith hwn yn helpu i nodi ble a sut y byddai modd defnyddio cyllid.

- Yna, mae adnodd mapio cymdeithasol digidol yn cael ei greu i dynnu sylw at heriau lleol, grwpiau sy'n gweithredu yn yr ardaloedd lleol a sut mae'r elfennau hyn yn gysylltiedig â'i gilydd. Yna caiff map sy'n dangos hyn ei greu.
- Cyflwynodd JG fersiwn gyfredol y map ar gyfer Esgair Galed i ddangos pa ddata sydd wedi'i gasglu hyd yma.
- Mae gwybodaeth gynnar o waith mapio Esgair Galed yn dangos pwysigrwydd asedau cymunedol o ran bodloni anghenion cymunedol a'r heriau sy'n wynebu cymunedau gwledig fel mynediad at fanciau, allgáu digidol, a thai fforddiadwy a lleoedd iach i fyw mewn ardaloedd gwledig.
- Mae heriau sy'n seiliedig ar leoedd yn newid dros amser a bydd y gwaith mapio y mae Bute yn ei wneud yn parhau i ddatblygu i adlewyrchu'r blaenoriaethau hyn sy’n newid, ac i bwy y bydd grantiau’n cael eu dyfarnu oherwydd y newidiadau hyn.
- Mae'r dull mapio hwn yn cael ei ddefnyddio ar draws portffolio Bute gyda rhai ardaloedd yn fwy datblygedig nag eraill yn dibynnu ar gam datblygu’r parc ynni. Bydd gwersi allweddol yn cael eu dysgu o'r holl brosiectau i helpu i gefnogi a llywio'r rhai eraill.
- Eglurodd HR, er mai Bute sy'n gwneud y gwaith mapio cychwynnol, mae llawer o gyfleoedd i sefydliadau a chymunedau lleol gyfrannu ato a gwneud y data'n fwy cadarn ac ystyrlon yn lleol.
- Cafwyd trafodaeth am yr hyn sy'n cael ei ystyried yn 'lleol'. Esboniodd JG ein bod yn dechrau gyda ffin o 5km ar gyfer pob parc ynni ond drwy ymgynghori â chymunedau a grwpiau fel y Grŵp Cyswllt Cymunedol, gallai'r ardal hon newid. Er enghraifft, os oes tref â gwasanaethau allweddol y tu allan i'r ffin hon sydd o fudd i'r cymunedau sydd agosaf i’r parc ynni, byddai modd ei hystyried yn flaenoriaeth ar gyfer grantiau.
- Gofynnodd HR i'r grŵp ddechrau helpu i nodi blaenoriaethau allweddol, yn enwedig y rhai y gellir eu hategu â thystiolaeth, yn yr ardal leol, a phrosiectau y byddai modd eu cefnogi gyda sgiliau gan staff Bute Energy a'r cwmnïau sy'n gweithio ar y prosiect.
- Os bydd Esgair Galed yn cael cydsyniad, bydd panel lleol yn cael ei ffurfio a fydd yn edrych ar y blaenoriaethau hyn yn fanylach.
- Awgrymodd GM ymchwil i 'fannau digyswllt' digidol yn yr ardal gan fod y wybodaeth hon ar gael yn rhwydd. Atebodd MB na fyddai’r unrhyw faint o Wi-Fi yn ddigonol i wneud lan am golli mannau gwyrdd, ardaloedd gwyllt a byd natur yn yr ardal.
- Cafwyd trafodaeth ynghylch sut y byddai modd defnyddio'r cyllid sydd wedi'i neilltuo ar gyfer datblygu cynlluniau ynni cymunedol. Teimlwyd y gallai cynllun ynni cymunedol i gynhyrchu ynni fod yn gyfyngedig ond dylid ystyried effeithlonrwydd ynni gan y byddai hynny'n helpu i sicrhau bod cartrefi pobl yn cyrraedd y safon ac yn arwain at filiau ynni is. Dywedodd JG ei bod yn bosib cynnal astudiaeth bwrdd gwaith ar asedau a thiroedd cymunedol i weld pa dechnoleg ar raddfa fach fyddai'n ymarferol, a'r adenillion y gallai'r ased hwnnw eu cynhyrchu.
- Trafodwyd gosod cynnyrch ynni adnewyddadwy mewn cartrefi, fel paneli solar, a theimlwyd y byddai hyn yn cael ei groesawu.
- Cododd DP y mater o iawndal a sut y gallai hyn helpu i fynd i'r afael â gwrthwynebiad lleol. Dywedodd hefyd fod un fferm wynt gyfagos yn cynnig trydan am ddim i breswylydd cyfagos. Ailadroddodd HR mai gweledigaeth Bute o Gyllid Budd Cymunedol yw gadael etifeddiaeth

drwy wella a chreu asedau a gwasanaethau, yn hytrach na chyfrannu'n ariannol at filiau ynni preswylwyr, gan na fydd hynny'n cael unrhyw effaith hirdymor ar y gymuned.

- Esboniodd HR sut gall Bute Energy gynnig sgiliau i'r gymuned, gan gynnwys sgiliau arbenigol fel helpu i ysgrifennu ceisiadau am grantiau neu ar faterion cyfreithiol. Roedd HR arfer bod yn athro ffiseg ac mae wedi ymweld ag ysgolion mewn mannau eraill i siarad am yrfaoedd ym maes ynni adnewyddadwy. Mae staff hefyd wedi helpu gyda gwasanaethau cymunedol fel clirio Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Gofynnwyd i bawb feddwl am gyfleoedd posib i ddefnyddio'r gwirfoddolwyr ac adrodd eu syniadau yn ôl i Bute.

**Camau Gweithredu**

- **PAWB** i ystyried blaenoriaethau allweddol y byddai modd eu cynnwys yn y gwaith mapio digidol a'u rhannu â Bute
  Terfyn amser – **31 Rhagfyr 2025**
- **JG** i ymchwilio i 'fannau digyswllt' digidol
  Terfyn amser – **31 Rhagfyr 2025**
- **JG** i ymchwilio i fodelau ynni cymunedol a chyflwyno opsiynau yn y cyfarfod nesaf
  Terfyn amser – **11 Chwefror 2026**
- **PAWB** i ystyried sut byddai modd defnyddio gwirfoddolwyr yn y gymuned leol a rhannu'r syniadau hyn â Bute
  Terfyn amser – **31 Rhagfyr 2025**

**Unrhyw Fater Arall**

Ni ofynnwyd am Unrhyw Fater Arall cyn y cyfarfod felly gofynnodd HR a oedd unrhyw beth arall yr hoffai pobl ei drafod.

- Gofynnodd DP a fyddai'r bobl hynny nad oeddent yn dod i'r cyfarfodydd yn parhau i gael eu gwahodd. Dywedodd HR y byddent ac nad oes angen cael gwared ar bobl eto, ac y byddant yn parhau i annog pobl i fynychu.
- Gofynnodd GM a fyddai modd i ni gynnwys pawb sydd wedi cael gwahoddiad yn y cofnodion. Bydd T47 yn cynnwys hyn yng nghofnodion cyfarfodydd yn y dyfodol.
- Gofynnodd DP a fyddai modd cynnwys y mater o iawndal yn y cofnodion a'i ystyried ar gyfer y cyfarfod nesaf.

**Camau Gweithredu**

- **T47** i sicrhau bod rhestr lawn o wahoddiadau yn cael ei chynnwys yng nghofnodion cyfarfodydd y dyfodol
  Terfyn amser – **5 Tachwedd 2025**
- **HR** i godi'r mater o iawndal yn fewnol yn Bute Energy ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf **– 11 Chwefror 2026**

## Camau Gweithredu

- **HR** i gysylltu â'r cynrychiolydd busnesau twristiaeth lleol – **05/11/25**
- **JG** i ymchwilio i ffyrdd y byddai modd defnyddio'r Gronfa Budd Cymunedol ar gyfer pobl leol – **11/02/26**
- **HR** i ymchwilio i iawndal i fusnesau sy'n colli enillion – **11/02/26**
- **PAWB** i rannu manylion mynychwyr posib ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol ag HR neu T47 – **28/11/26**
- **HR** i sicrhau bod y Telerau Cyfeirio wedi'i ddiweddaru yn cael ei lwytho i fyny i adran y Grŵp Cyswllt Cymunedol ar wefan y prosiect – **19/11/26**
- **PAWB** i ystyried blaenoriaethau allweddol y byddai modd eu cynnwys yn y gwaith mapio digidol a'u rhannu â Bute – **31/12/25**
- **JG** i ymchwilio i 'fannau digyswllt' digidol – **31/12/25**
- **JG** i ymchwilio i fodelau ynni cymunedol a chyflwyno opsiynau yn y cyfarfod nesaf – **11/02/26**
- **PAWB** i ystyried sut byddai modd defnyddio gwirfoddolwyr yn y gymuned leol a rhannu'r syniadau hyn â Bute – **31/12/25**
- **T47** i sicrhau bod rhestr lawn o wahoddiadau yn cael ei chynnwys yng nghofnodion cyfarfodydd y dyfodol – **05/11/25**
- **HR** i godi'r mater o iawndal yn fewnol yn Bute Energy ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf – **11/02/26**

## Y cyfarfod nesaf

**Dydd Mercher 11 Chwefror 2026**

Neuadd Gymunedol Penffordd-las / bydd dolen Teams yn cael ei rhannu